

GRIFFITH, ALEXANDER (bu farw 1676), clerigwr a phamffledwr dadleugar

Enw: Alexander Griffith
Dyddiad marw: 1676
Plentyn: Godfrey Griffith
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: clerigwr a phamffledwr dadleugar
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Thomas Richards

Ar ôl gadael Rhydychen gosodwyd ef mewn bywiolaethau yn esgobaeth Bangor - Trefeglwys yn 1622, Llanwnnog yn 1633; ac yn Glasbury, esgobaeth Tyddewi, yn 1639. Trowyd ef allan o Lanwnnog o dan Ddeddf y Taeniad (1650-3), ac o ficeriaeth Glasbury, lle y dygwyd cyhuddiadau hyll iawn yn ei erbyn. Yn naturiol ddigon, teimlai'n ffrom iawn ynghylch holl drefn y Taeniad, ac yn enwedig yn erbyn [Vavasor Powell](#), nid yn unig am fod hwnnw'n bennaeth y pregethwyr crwydr ond yn gyfrifol (yn ôl Alexander Griffith) am yr eithafion yr aed iddynt wrth ddymchwel y drefn eglwysig yn Nhrefaldwyn Isaf a sir Faesyfed. Yn 1652 saernïodd betisiwn yn erbyn gweithrediadau'r Ddeddf, a chyhoeddodd bamffled yn pwysleisio'r cwynion; yn 1654 cyfleodd *A True and Perfect Relation* o'r hyn a ddigwyddodd yn 1652, a'i gyflwyno i'r 'Protector' newydd; yn yr un flwyddyn cyhoeddodd y *Strena Vavasoriensis*, pamffled o 28 tudalen. Ynddo teflir golwg dros yrfa [Vavasor](#) o'r dechreuadau cyntaf, dychenir ei greddo a'i syniadau (ar ôl eu gwyrddroi'n glyfar), ac nid anghofir ei gasineb at Ddiffynwriaeth Cromwell - y cwbl yn llawn o ansoddeiriau brathog ac o ensyniadau cyrhaeddbell. Derbyniwyd y dystiolaeth unochrog hon - ni thalwyd ymron ddim sylw i'r *Vavasoris Examen et Purgamen* a ysgrifennwyd gan gyfeillion [Vavasor](#) - ymhlith beirniaid eglwysig y drefn Biwritanaidd, yn enwedig gan y Dr. John Walker yn ei *Sufferings* (gweler 147-70 yn y llyfr hwnnw). Annhebyg y buasai clerigwr mor anhywaith ag Alexander Griffith yn cael y 'fifths' a delid o dan y Ddeddf i bobl a âi allan yn dawel; ond ceir prawf ei fod yn ysgolfeistr awdurdodedig yn y Gelli o 1658 ymlaen i 1660. Gyda'r Adferiad adferwyd yntau i Glasbury; cyn 1665 yr oedd yn rheithor Llyswen yn ogystal; ar ôl 1670 y mae ym mywoliaeth Llanellieu; am rai blynyddoedd wedi 1662, eisteddai yn llys 'consistory' Aberhonddu fel un o gynorthwywyr yr archddiacon. Bu farw yn Glasbury ar 21 Ebrill 1676, ymron ar yr union amser pan ddisgwyldid atebion y 'census' gan yr archesgob Sheldon; dyna, mae'n bur debyg, paham nad oes air am Glasbury yn y 'census' hwnnw.

Awdur

Thomas Richards, (1878 - 1962)

Ffynonellau

T. Richards, *Religious Developments in Wales, 1654-1662* (1923), 297-8 (teulu)

Llawysgrif Rawlinson yn Llyfrgell Bodlean, Rhydychenc. 261 (78) (adarg. Cymdeithas Llên Cymru) a MS. *Llawysgrifau yn Llyfrgell Bodley o eiddo John Walker*, c. 7, f. 214

T. Richards, *A History of the Puritan Movement in Wales* (1920), 280-1 (dadansoddiad o ddau bamffled)

Strena Vavasoriensis a New Years gift for the Welsh itinerants or a hue and cry after Mr. Vavasor Powell (1654, 1915) (adarg. Cymdeithas Llên Cymru)

Lambeth Manuscripts 987/54 a 639/335

Salt MS. 2112 yn Llyfrgell William Salt, Stafford (393-6)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [33440749](#)

Wikidata: [Q4719014](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

